OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2783 (Cy.236) (C.93)

# COMISIYNYDD PLANT, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001(Cychwyn) 2001

*Wedi'i wneud - - 25 Gorffennaf 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 9(1) o Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (**1**):

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (Cychwyn) 2001.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.

**Y Diwrnod Penodedig**

**2.**—(1) Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â darpariaethau'r Ddeddf a bennir ym mharagraff (2) i rym yw 26 Awst 2001.

(2) Dyma'r darpariaethau—

(a) Adran 1 (cymhwyso Rhan 5 o Ddeddf Safonau Gofal 2000);

(b) Adran 2 (prif nod y Comisiynydd);

(c) Adran 3 (adolygu arfer swyddogaethau'r Cynulliad a swyddogaethau personau eraill);

(ch) Adran 4 (adolygu a monitro trefniadau);

(d) Adran 5 (pŵer ychwanegol i ystyried a gwneud sylwadau);

(dd) Adran 6 (swyddogaethau pellach y Comisiynydd);

(e) Adran 7 (darpariaethau canlyniadol etc.);

(f) Adran 8 (darpariaethau ariannol); ac

(ff) Yr Atodlen (personau a threfniadau sy'n destun adolygiad).

(**1**) 2001 p.18.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*Rhodri Morgan*

25 Gorffennaf 2001

Prif weinidog y Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**2**) 1998 p.38.

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi 26 Awst 2001 i'r darpariaethau canlynol yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 ("Deddf 2001") ddod i rym:—

(a) Adran 1, sy'n diwygio adran 78 (dehongli) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("Ddeddf 2000");

(b) Adran 2, sy'n mewnosod adran 72A yn Neddf 2000 sy'n darparu mai diogelu a hybu hawliau a lles plant y mae Rhan V o Ddeddf 2000 yn gymwys iddynt yw prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau;

(c) Adran 3, sy'n mewnosod adran 72B yn Neddf 2000 sy'n galluogi'r Comisiynydd i adolygu effaith arfer swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") a swyddogaethau personau eraill a bennir yn Atodlen 2A i Ddeddf 2000, sydd hefyd yn cael ei mewnosod gan adran 3. Mae adran 72B yn darparu y gall y Cynulliad ddiwygio Atodlen 2A drwy orchymyn o dan amgylchiadau penodol;

(ch) Adran 4, sy'n diwygio adran 73 o Ddeddf 2000 sy'n ymdrin ag adolygu a monitro trefniadau penodol ar gyfer cŵynion, eiriolaeth a chwythu'r chwiban ac sy'n mewnosod Atodlen 2B yn Neddf 2000. Yn benodol mae'r diwygiadau yn darparu y gall y Cynulliad ddiwygio Atodlen 2B drwy orchymyn o dan amgylchiadau penodol;

(d) Adran 5, sy'n mewnosod adran 75A yn Neddf 2000 ynghyd a diwigiadau canlyniadol i adran 74. Mae adran 75A yn galluogi'r Comisiynydd i ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau neu les plant yng Nghymru ac i wneud sylwadau i'r cynulliad yng Nghylch hynny;

(dd) Adran 6, sy'n gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol i adran 76 o Ddeddf 2000;

(e) Adran 7, sy'n gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol i adran 118(8) o Ddeddf 2000;

(f) Adran 8, sy'n cynnwys darpariaethau ariannol canlyniadol; ac

(g) yr Atodlen, sy'n mewnosod Atodlen 2A a 2B yn Neddf 2000.